

Sport RCT

## Annie, Sophie, Arthur ac Evie
## Ysgol Gynradd Penrhiwceibr

Mae Annie, Sophie, Arthur ac Evie yn grŵp o Llysgenhadon Ifainc o Ysgol Gynradd Penrhiwceibr. Ers dod yn Llysgenhadon Ifainc, maen nhw wedi dylunio a darparu clwb ar ôl ysgol ar gyfer eu cyfoedion. Maen nhw wedi cyflwyno dau gyflwyniad i lywodraethwyr eu hysgolion er mwyn eu cynorthwyo nhw gyda'u prosiectau yn eu hysgolion. Maen nhw wedi archebu adnoddau ar gyfer yr ysgol, maen nhw'n cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Pennaeth Gweithredol, ac maen nhw wedi cynorthwyo â sesiynau nofio'r ysgol drwy helpu'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol i gerdded at y bysiau a'u helpu nhw yn yr ystafelloedd newid ac wrth y pwll. Maen nhw wedi cwblhau dros 200 awr rhyngddyn nhw eleni.

“Rwy’n caru’r rôl gyfrifoldeb hon oherwydd rwy’n hoffi cadw pawb yn egnïol. Rwyf hefyd wrth fy modd yn arwain sesiynau Addysg Gorfforol, ac rwy’n hoffi cymryd y clybiau ar ôl ysgol.” – Sophie

“Rwy’n mwynhau’r swydd hon oherwydd rwy’n hoffi cadw pobl yn egnïol ac yn iach ac rwy’n caru chwaraeon.” - Arthur

“Dw i’n meddwl bod bod yn llysgennad chwaraeon efydd yn rôl bwysig iawn.” - Annie

**LLYSGENNAD IFANC Y MIS - MAI 2025**

Chwaraeon RhCT Sport RCT | sportwales chwaraeoncymru | YOUTH SPORT TRUST | RHONDDA CYNON TAF